

SL(5)821 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021

Cafodd y nodyn hwn ei baratoi er mwyn rhoi gwybodaeth i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â busnes y Cyfarfod Llawn ar 26 Mai 2021.

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") i addasu dros dro sut y mae Lefel Rhybudd 3 yn gweithredu yng Nghymru. Mae cyfnod yr addasiadau dros dro sydd eisoes mewn grym bellach wedi'i estyn tan ddiwedd y dydd ar 2 Mai 2021

Yn ystod y cyfnod hyd at 2 Mai 2021, mae Cymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i Lefel Rhybudd 3. Byddai Atodlen 3 i'r prif Reoliadau fel arfer yn berthnasol. Fodd bynnag, dylid cymryd bod Atodlen 3A yn disodli Atodlen 3.

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

Caiff y cyfyngiadau ar ymgynnull ag eraill yn yr awyr agored eu llacio drwy ddileu'r gofyniad bod y bobl sy'n ymgynnull dim ond yn gallu dod o ddwy aelwyd wahanol. Mae hyn yn golygu y gall hyd at 6 o bobl o wahanol aelwydydd bellach ymgynnull yn yr awyr agored o nawr ymlaen. Nid yw plant o dan 11 oed na gofalwyr wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn (ar yr amod nad yw'r plant yn dod o fwy na 6 aelwyd). Bydd y newid hwn yn weithredol ar 24 Ebrill 2021.

Hefyd, o 26 Ebrill 2021, caiff pobl ymgynnull yn yr awyr agored at ddibenion cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol sy'n cynnwys hyd at 30 o bobl. Gall gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol gynnwys protestio a phicedu, a all ddigwydd heb gyfyngu ar nifer y bobl sy'n bresennol ar bob Lefel Rhybudd ac eithrio Lefel Rhybudd 4.

Cyhyd ag i'r weithred ddigwydd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020, mae darpariaeth benodol wedi'i gwneud i ganiatáu i grwpiau o hyd at 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored i ddathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall. Yn yr un modd, caniateir i 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored i ddathlu bywyd person ymadawedig cyhyd ag i'r angladd gael ei gynnal ar 26 Mawrth 2020 neu ar ôl y dyddiad hwn. Mae'r newid hwn hefyd yn weithredol o 26 Ebrill 2021.

Caniateir i fusnesau penodol ailagor eu mangreoedd ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd a diod, atyniadau i ymwelwyr a phyllau nofio. Mae'r newid hwn yn weithredol o ddechrau'r dydd ar 26 Ebrill 2021, heblaw busnesau sy'n gwerthu bwyd a diod, y caniateir iddynt agor o 06.00 ymlaen ar y diwrnod hwnnw).



Yn amodol ar ganiatâd Gweinidogion Cymru, efallai y bydd modd cynnal digwyddiadau sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar Lefel Rhybudd 3 (ac wedi'i ganiatáu eisoes ar Lefelau Rhybudd 1 a 2).

Hefyd, caiff Atodlenni 1, 2 a 3 (yr Atodlenni sy'n berthnasol ar Lefelau Rhybudd 1, 2 a 3) eu diwygio. Caiff mân newidiadau eraill eu gwneud hefyd.

Gweithdrefn

Cadarnhaol 'gwnaed'.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gwneud er mwyn iddynt barhau i fod yn weithredol.

Pwyntiau i'w nodi

1. Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny."

2. Nodwn nad oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Cynghorwyr Cyfreithiol

10 Mai 2021

